# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Mai 2025

Amser: 09.23 - 10.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15331

# Ar y safle

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AS.

## 2 Offerynnau sy’n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 2.1 SL(6)610 – Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 3.1 SL(6)606 – Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 4.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfodydd: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dwristiaeth a'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant.

### 4.2 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru: Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Treftadaeth Geltaidd

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

### 4.3 Gohebiaeth a Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Pontio) (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 4.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Dirymu) 2025

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a’r ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

### 4.5 Gohebiaeth â’r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 5 Papurau i’w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni: Ymrwymiadau i gywiro offerynnau statudol.

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

### 5.2 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth.

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd ar ei adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau i'w cytuno y tu allan i'r Pwyllgor.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, a chytunodd ar ei adroddiad drafft.

## 11 Blaengynllunio Gwaith

Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr haf.

## 12 Yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Charchar EF y Parc

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf mewn cysylltiad â Charchar EF y Parc a chytunwyd i ystyried y mater ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 13 Adroddiad monitro

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad monitro.

## 14 Offerynnau statudol a drafodwyd yn flaenorol

Ystyriodd y Pwyllgor ei waith parhaus o fonitro offerynnau statudol, a chytunodd i ysgrifennu at: y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni; y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol.

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynllunio a Seilwaith

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunwyd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.